Cynrychiolwyr o'r trydydd sector yn cwrdd â'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

Ddwywaith y flwyddyn, mae cynrychiolwyr o sefydliadau'r trydydd sector yn cael cyfle i gwrdd â holl weinidogion cabinet Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yng nghyfarfod yr hydref gydag Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, trafodwyd adroddiadau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y Cynllun Datblygu Gwledig, y rhaglen i ddileu TB mewn gwartheg a chynllun gweithredu adrannol yr adran Materion Gwledig, ynghyd â chyfraniadau gan y trydydd sector ar dlodi tanwydd mewn ardaloedd gwledig ac agweddau gwledig ar gam-drin domestig.

Mynegodd cynrychiolwyr sefydliadau'r trydydd sector eu pryderon am y trefniadau ariannu ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig, trefniadau na wnânt ddim darpariaeth ar gyfer arian ymlaen llaw ac maent yn arbennig o anodd i sefydliadau trydydd sector sydd â chronfeydd arian cyfyngedig. Cadarnhaodd y Gweinidog fod y Comisiwn Ewropeaidd wedi dyfarnu na ellir gwneud blaendaliadau dan y CDG nac o dan unrhyw raglen arall a ariennir gan y Polisi Amaethyddiaeth Cyffredin (CAP), ond cytunodd i geisio codi blaendaliadau yng nghylch nesaf y CAP.

Ar ôl trafod papur y trydydd sector ar dlodi tanwydd yng nghefn gwlad, dywedodd y Gweinidog ei bod yn gweithio gyda'r Gweinidog arweiniol, Jane Davidson AC, i archwilio'r agweddau gwledig ar y Strategaeth arfaethedig. Roedd canfyddiadau astudiaeth i Ardaloedd Gwledig Anghysbell yn cael eu cyhoeddi yn Rhagfyr, ac roedd yn cynnwys manylion defnyddio ynni mewn ardaloedd gwledig anghysbell.

Dywedodd y Gweinidog hefyd y byddai'n codi pryderon y trydydd sector ynghylch Cynllun Gweithredu Strategol newydd Llywodraeth y Cynulliad ar Drais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig gyda'i chydweithwyr yn yr adran dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

Mae copïau o'r holl bapurau a chofnodion y cyfarfodydd gweinidogol i'w gweld yn

http://www.wcva.org.uk/policy/dsp_paper_ministerial.cfm?0=0&display_sitetextid=174&sub=3 neu
http://www.wcva.org.uk/policy/dsp_paper_ministerial.cfm?0=0&display_sitetextid=174&sub=3&lang=cy